Y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Yn gweithio gyda chi ...

DATGANIAD O WASANAETH – MEDI, 2010

(Dilys tan Fedi 2011)

Mae'r Datganiad Gwasanaeth hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn.
Mae copi ar gael ichi fynd ag e gyda chi: holwch wrth y Dderbynfa.

Datganiad Cenhadaeth

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn darparu gwasanaethau rhagweithiol, ymatebol ac arloesol i gefnogi ein cleientiaid, gan eu helpu i benderfynu ar opsiynau, cynllunio ar gyfer ennill sgiliau a phrofiad a chystadlu'n effeithiol yn y farchnad lafur fyd-eang.

RHAGYMADRODD

Nod y Gwasanaeth Gyrfaoedd yw cynnig gwasanaeth o safon uchel i'w gleientau, sy'n cynnwys:

1. Israddedigion amser llawn a rhan-amser cyfredol, ôl-raddedigion sy'n dilyn rhaglenni a ddysgir ac ymchwil a myfyrwyr ar ymweliad.

2. Graddedigion Prifysgol Caerdydd.

3. Graddedigion yr UE/DU o brifysgolion eraill sy'n byw'n lleol ac sy'n cofrestru yng Nghanolfan Cyngor Gyrfaoedd i Raddedigion (GEAC).

4. Yr holl staff y Brifysgol.

5. Cyflogwyr - lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

CYFYNGIADAU EIN GWASANAETH

Mae'r Ganolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn gweithredu ar ail lawr adeilad sydd heb lifftiau. Gellir trefnu ystafelloedd eraill ar y llawr gwaelod ar gyfer unrhyw gleientiaid sydd â phroblemau symudedd neu nam ar y synhwyrau os bydd hynny'n briodol a gellir dod â deunyddiau i lawr o'r Llyfrgell Gyrfaoedd pan wneir cais. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi cymaint o rybudd â phosibl i ni os bydd angen y gwasanaeth hwn arnoch chi.

Efallai y bydd cleientau sy'n ei chael yn anodd symud o gwmpas am drefnu lle parcio yng nghefn yr adeilad ymlaen llaw cyn eu hymweliad.

Mae gan staff y Llyfrgell Gyrfaoedd fanylion cyfleusterau'r Brifysgol i helpu myfyrwyr dyslecsig neu'r rhai sydd â nam ar eu golwg. Gofynnwch am gyfarwyddyd.

Mae cyfleusterau argraffu cyfrifiadurol ar gael drwy ddefnyddio cerdyn talu Llyfrgell.

Mae'r Ganolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, 50 Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AT
Ffôn: (029) 2087 4828 Ffac: (029) 2087 4229
e-bost: careers@cardiff.ac.uk y we: www.cardiff.ac.uk/carsv/

EIN LLEOLIAD A'R GWASANAETHAU A GYNIGIR

Lleolir y Ganolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ar ail lawr y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr yn 50 Plas y Parc (yn gyfagos i Ganolfan Ffitrwydd a Sboncen y Brifysgol).

50 Plas y Parc (Canolfan Cymorth Myfyrwyr)
Caerdydd,
Cymru, DU
CF10 3AT

Ffôn: (029) 2087 4828
Ffacs: (029) 2087 4229
E-bost: **Careers@caerdydd.ac.uk**
Gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/carsv**

Hefyd mae Ymgynghorydd Gyrfaoedd wedi'i seilio yn y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr, Ty Aberteifi, ar gyfer myfyrwyr sy'n seiliedig ar Gampws Mynydd Bychan.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi'i staffio o 9.00am i 5.00pm bob dydd yn ystod yr wythnos.

Mae Cyfweliadau, Gweithdai, Ymholiadau a Sesiynau Galw Heibio ar gael ar ddyddiau gwaith yn ystod y tymor rhwng 10.00am a 4.00pm, fel yr hysbysebwyd. Mae gwasanaeth cyfyngedig ar gael bob dydd trwy gydol gweddill y flwyddyn.

Mae Anerchiadau Gyrfaoedd a Chyflwyniadau Cyflogwyr yn cael eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn y prynhawn a chyda'r nos. Bwriwch gip ar lyfrynnau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd "Beth sydd ymlaen imi yr Hydref/Gwanwyn/Haf hwn' neu ar dudalennau Newyddion a Digwyddiadau **www.cardiff.ac.uk/carsv** am ragor o fanylion.

Mae'r Llyfrgell Gyrfaoedd ar agor ar ddyddiau'r wythnos yn ystod y semester rhwng 9.00am a 5.00pm. Bydd yr amserau agor yn amrywio yn ystod y gwyliau a chyhoeddir y manylion ymlaen llaw.

Mae'r Ganolfan Cyngor Cyflogaeth i Raddedigion ar agor rhwng 11.00am a 3.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau ac 11.00am a 1.00pm ar ddydd Gwener. Mae apwyntiadau gyda'r nos ar gael rhwng 5.00pm a 7.00pm ar nos Fercher i raddedigion sy'n gweithio. Ffoniwch y Dderbynfa ar 02920 874828 i drefnu apwyntiad.

Gellir trefnu Cyfweliadau Gyrfaoedd, Ymholiadau Cyflym, lleoedd mewn Gweithdai, Anerchiadau a Chyflwyniadau trwy gyfrwng ein system archebu ar-lein, sydd ar gael trwy Wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd. Dylai unrhyw un sy'n cael anawsterau ffonio Derbynfa'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i gael cyngor.

DATGANIAD O WASANAETH I'R BRIFYSGOL – MEDI 2010

Rydym yn addo cynnig gwasanaeth o safon uchel i'r Brifysgol i ategu ei Chenhadaeth a'i Nodau, gan gynnwys:

- Gweithredu Gwasanaeth Gyrfaoedd effeithlon ac effeithiol yn unol â'n Cenhadaeth.
- Meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â chydweithwyr Academaidd a Gweinyddol i ategu Cynllun Strategol y Brifysgol.
- Chwarae rhan lawn yng Nghyfarwyddiaeth y Gofrestrfa, Llywodraethu a Myfyrwyr i ategu ei Chenhadaeth a'i Nodau ac i gyfrannu at Gynllun Gweinyddol y Brifysgol.
- Cymryd rhan weithgar wrth gefnogi Fframwaith Strategol y Brifysgol ar gyfer Dysgu, Addysgu ac Asesu.
- Gweithio gydag Ysgolion Academaidd ac Adrannau Gweinyddol i weithredu Strategaeth Sgiliau Cyflogadwyedd a Menter y Brifysgol ar gyfer Graddedigion.
- Cynnal Arolwg blynyddol o Gyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch y Brifysgol a chyflwyno'r data perthnasol i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch o fewn yr amserlen y cytunir arni.
- Rhoi data ystadegol i gydweithwyr Academaidd a Gweinyddiaeth y Brifysgol am gyrchnodau myfyrwyr a'r farchnad lafur i raddedigion.
- Rhoi cymorth egnïol i gydweithwyr sy'n ymwneud ag Asesu Ansawdd ac Adolygiadau a Throsolygon Pwnc.
- Chwarae rhan weithgar wrth hybu'r Brifysgol a'i myfyrwyr gerbron darpar gyflogwyr.
- Meithrin perthynas waith effeithiol ag Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan i Raddedigion.
- Ymateb i geisiadau am wybodaeth oddi wrth ysgolion, cwmnïau gyrfaoedd, darpar geiswyr a'r cyfryngau.
- Mynd ar ôl polisi gweithgar o wneud ceisiadau i ffynonellau ariannol allanol er mwyn gwella'r gwasanaethau a gynigir i'n cleientau.
- Darparu data ariannol ac ystadegol i gyrff ariannu allanol megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, CCAUC a WEFO.
- Darparu rhaglen o Weithdai Sgiliau Rheoli Gyrfa i israddedigion ac ôl-raddedigion sy'n chwilio am gyflogaeth.

DATGANIAD O WASANAETH I FYFYRWYR/GRADDEDIGION – MEDI 2010

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl oddi wrthym:

Rydym yn addo darparu gwasanaeth o safon uchel a fydd yn cynnwys y canlynol:

1. Cyfarwyddyd gyrfaol ac addysgol cyfrinachol a diduedd gan staff sydd â chymwysterau proffesiynol.

2. Adnoddau gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd.

3. Lleoliadau profiad gwaith boed wedi'u talu ac yn ddi-dâl.

4. Gwybodaeth am swyddi gweigion i raddedigion a chyflogaeth rhan amser.

5. Cyfleoedd i gyfarfod â Recriwtwyr Myfyrwyr a Graddedigion drwy raglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau.

6. Os ydyn ni'n teimlo bod Darparwr arall yn fwy priodol at eich anghenion chi, gyda'ch caniatâd fe gyfeiriwn ni chi at y Darparwr hwnnw.

Rydym yn gofyn yn rheolaidd i'r defnyddwyr gloriannu'n gwasanaethau, drwy holiaduron a grwpiau ffocws i'r cleientau. Mae'r ffurflenni hyn, ynghyd ag adborth arall, yn cael eu hadolygu'n anffurfiol drwy'r flwyddyn, ac yn ffurfiol unwaith y flwyddyn fel rhan o'n System Ansawdd. Mae newidiadau'n cael eu gwneud ar y cyfle cyntaf.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gweithredu o fewn y Codau Ymarfer canlynol:-

- Polisi'r Brifysgol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Polisi'r Brifysgol ynghylch Urddas wrth Weithio ac Astudio
- Polisi'r Brifysgol ar Gydraddoldeb Hiliol.
  (i gyd i'w gweld ar **www.caerdydd.ac.uk/cocom/equalityanddiversity)**
- Cod Ymarfer y QAA ar CEIG.
- Cod Ymarfer AGCAS ar Recriwtio Graddedigion.
- Egwyddorion y Bwrdd Cenedlaethol Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd ar Gyflwyno Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd yn Gydlynol.
  (I gyd ar gael i'w gweld drwy ofyn amdanynt. Holwch wrth y Dderbynfa.)

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd hefyd yn cadw at yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ar gyflogaeth.

Rydym ni'n gwneud pob ymdrech i fodloni anghenion unrhyw fyfyrwyr sydd â gofynion ychwanegol e.e. oherwydd anabledd neu amgylchiadau personol. Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd o dan y tudalennau Anabledd/Amrywiaeth.

Pe baem yn methu â chadw'n hymrwymiad ichi mewn unrhyw ffordd, hwyrach yr hoffech ysgrifennu at Cyfarwyddwr Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cyflogwr, Mr LFJ Rees, yn y cyfeiriad ar dudalen 2. Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith ac yna byddwn yn ymchwilio iddi ac yn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith. Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn dau ddiwrnod gwaith ac wedyn yn ymchwilio iddi gan ymateb o fewn dwy wythnos waith. Os na chaiff eich cwyn ei datrys yn foddhaol, caiff ei chyfeirio at Gyfarwyddwr y Gofrestrfa, Llywodraethu a Myfyrwyr ar gyfer ymchwiliad a gweithredu pellach os bydd angen. Cewch wybod am ganlyniad yr ymchwiliad o fewn pedair wythnos.

BYDD Y GWASANAETHAU A DDARPERIR YN CYNNWYS:

- Cysylltiadau â staff sy'n barod eu cymwynas, yn groesawgar ac yn hawdd mynd atynt.

- Gellir trefnu apwyntiad gydag Ymgynghorydd Gyrfa penodol bythefnos ymlaen llaw, naill ai trwy ddefnyddio System Gofrestru Gyfrifiadurol y Gwasanaeth Gyrfaoedd.

  Os nad oes apwyntiadau ar gael, mae modd i fyfyrwyr drefnu cyfarfod byr gydag Ymgynghorydd Gyrfa trwy ddefnyddio'r system Ymholiadau Cyflym. Gellir ond trefnu Ymholiad Cyflym wedi 5.00pm y diwrnod cynt yn yr un modd ag a nodir uchod.

  Gellir trefnu apwyntiadau galw heibio o 15 munud gydag Ymgynghorydd Gyrfaoedd bob prynhawn yn ystod y tymor rhwng 1.00pm a 4.00pm. Caiff archebion ar gyfer y rhain eu cymryd wrth Ddesg Derbynfa Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd o 12.30pm bob diwrnod.

  Caniateir i fyfyrwyr cyfredol a graddedigion a raddiodd dair blynedd yn ôl neu lai archebu ymgynghoriadau ynglyn â gyrfaoedd yn ôl y galw. Caniateir i raddedigion a raddiodd fwy na thair blynedd yn ôl gael un ymgynghoriad cyfeirio ynghylch gyrfaoedd o 45 munud, ac wedyn bydd gwasanaethau eraill ar gael iddyn nhw yn ôl y galw.

  Os bydd rhaid i apwyntiad gael ei ohirio neu ei ddileu am unrhyw reswm, gwneir pob ymdrech i gysylltu â'r myfyriwr cyn gynted â phosibl i roi gwybod ac i roi esboniad. Caiff apwyntiad arall ei drefnu cyn gynted ag y gellir.

- Gweithdai Gyrfaoedd, sy'n ymdrin â chynllunio gyrfa, chwilio am swyddi a'r broses o wneud cais, ac y gellir archebu lle arnynt drwy gydol y flwyddyn academaidd, yn unol â'r hysbysebion.

- Rhaglen o Ffeiriau a digwyddiadau i amlygu cyfleoedd i fyfyrwyr a graddedigion.

- Bwletin Swyddi Gwag ar-lein sy'n hysbysebu manylion swyddi yn lleol ac yn genedlaethol, profiad gwaith, lleoliadau mewn diwydiant a chyflogaeth ran-amser yn ogystal â gwaith gwirfoddol.

- Rhaglen recriwtio sy'n cynnwys cyflwyniadau gan gyflogwyr a gweithgareddau recriwtio ar y campws, drwy gydol y flwyddyn academaidd, yn unol â'r hysbysebion.

- Rhaglen Sgiliau Rheoli Gyrfa, sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd yn y mwyafrif o'r Adrannau Academaidd, ac yn y Ganolfan i Raddedigion.

- Llyfrgell Gyrfaoedd sydd â stoc dda o ddeunyddiau cyfeirio a deunyddiau i fynd â nhw gyda chi am y broses benderfynu, galwedigaethau, cyrsiau i ôl-raddedigion, cyflogwyr a'r broses gwneud cais, sy'n berthnasol i'r cyrsiau a gynigir gan y Brifysgol. Mae'r deunyddiau ar gael mewn amrywiaeth o fformatiau, gan gynnwys print, fideo, rhaglenni cyfrifiadur rhwydwaith ac arunig, CDs a thudalennau gwe. Mae fformatiau eraill e.e. print bras neu gyfieithiadau ar gael drwy ofyn amdanynt. Mae'r Gwasanaeth yn darparu dogfennau allweddol yn Gymraeg.

- Cyfle i weld gwybodaeth am yrfaoedd a galwedigaethau sydd ar gael drwy wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd/y Rhyngrwyd.

- Cynorthwyon cyfrifiadur, gan gynnwys cynllunydd Prospects, arweiniad i ddewis gyrfa.

- Gwefan gyfoes y Gwasanaeth Gyrfaoedd ac arni wybodaeth am yr amrywiaeth llawn o wasanaethau gan gynnwys manylion gweithdai, ymweliadau recriwtio, cyflwyniadau a ffeiriau yn ogystal â swyddi gwag i raddedigion a chyfleoedd i gael profiad gwaith.
  www.caerdydd.ac.uk/carsv

- Gwybodaeth a chyngor am leoliadau, profiad gwaith, cyflogaeth ran-amser, nawdd, swyddi gwag a dechrau busnes.

MAE RHAGLENNI PRESENNOL A ARIENNIR YN ALLANOL YN CYNNWYS:

a) Mae **Rhaglen Waith GO Wales** yn cynnig

- Lleoliadau profiad gwaith â thâl dros 10 wythnos i fyfyrwyr a graddedigion.
- Cyfnodau Blas ar Waith byrrach heb dâl.
- Cyrsiau Academi Raddedigion i helpu graddedigion di-waith i gael gwaith.
- Swyddi GO Wales sy'n rhestru ystod eang o gyfleoedd yng Nghymru.
- Cyrsiau Academi'r Gweithwyr Llawrydd i helpu graddedigion gael gyrfa fel Gweithiwr Llawrydd.

Nodwch fod y Cyllid Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi'r rhaglenni hyn yn golygu nad yw rhai elfennau'n agored i fyfyrwyr nad ydynt o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r manylion llawn ar gael ar **www.gowales.co.uk.**

b) Y Ganolfan Cyngor Cyflogaeth i Raddedigion

Yn cynnig cymorth, cyngor a chyfleusterau i raddedigion di-waith a thangyflogedig Caerdydd ac i raddedigion y DU/UE o brifysgolion eraill sy'n byw'n lleol.

Mae nifer o'r gwasanaethau a'r rhaglenni hyn ar gael hefyd i raddedigion prifysgolion eraill. Mae'r wybodaeth ar gael drwy ofyn amdani.

Mae'r holl wasanaethau rydyn ni'n eu cynnig yn cael cyhoeddusrwydd drwy'n gwefan, a hefyd drwy gylchlythyrau, taflenni a phosteri. Danfonir post wedi'i dargedu yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

BYDDEM YN CROESAWU:

Eich sylwadau chi ar y Gwasanaeth ac unrhyw syniadau sydd gennych i wella'r hyn sy'n cael ei gynnig. Gallwch eu rhoi yn bersonol i aelod o'r staff neu drwy gyfrwng y ffurflen adborth sydd ar gael yn y Llyfrgell Gyrfaoedd.

Eich amynedd ar adegau prysur o'r flwyddyn.

Eich parch i'r deunyddiau cyfeirio sydd ar gael yn y Llyfrgell Gyrfaoedd.

Rhybudd gennych ymlaen llaw os na allwch ddod i gyfweliad, gweithdy neu gyflwyniad er mwyn inni gynnig eich lle i fyfyrwyr eraill.

DATGANIAD O WASANAETH I GYFLOGWYR - MEDI 2010

Rydym yn addo cynnig gwasanaeth o safon uchel i gyflogwyr a fydd yn cynnwys:

- Cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd i'ch swyddi gwag.
- Galluogi myfyrwyr a graddedigion i gael gwybodaeth am eich sefydliad a thaflenni perthnasol.
- Cyfleusterau i wneud gwaith dewis ar y campws.
- Cymorth i ledaenu gwybodaeth i fyfyrwyr yn yr adrannau academaidd.
- Cymorth a chyngor ynglyn â phroses recriwtio.

Gwasanaethau y codir tâl amdanynt:

- Mynediad i'n Cyfeiriadur Cyflogwyr ar-lein (a geir o dan Hysbysebu ar y We yn adran Cyflogwyr ein gwefan).
- Cyfleoedd i hybu'ch sefydliad chi drwy noddi cyhoeddiadau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.
- Mynychu Ffeiriau a digwyddiadau i hyrwyddo cyfleoedd profiad gwaith eich sefydliad a swyddi i raddedigion.
- Cymorth i drefnu cyflwyniadau ar y campws.

Sylwer, rydym ni wedi gwneud penderfyniad polisi i beidio ag hysbysebu swyddi gwag na chaniatáu cyflwyniadau ar y campws gan sefydliadau sy'n cynnig swyddi comisiwn yn unig neu swyddi sy'n talu llai na'r isafswm cyflog. Mae copi llawn o'r polisi hwn ar gael, pan wneir cais.

BYDD Y GWASANAETH GYRFAOEDD YN CEISIO CYNNIG:

- Gwasanaeth cwrtais, croesawgar gan staff gwybodus ac ymroddgar.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym am eich sefydliad chi.
- Cymorth wrth sicrhau gwybodaeth am y Brifysgol ac wrth gysylltu â'r adrannau academaidd.

Dylech fod yn ymwybodol:

- Nad yw'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cael datgelu enwau a manylion personol myfyrwyr/graddedigion unigol neu eu cydsyniad nhw ymlaen llaw.

- Bod tâl yn cael ei godi am rai o'n gwasanaethau – mae'r manylion ar gael drwy ofyn amdanynt.

- Ein bod yn ddigon bodlon trafod swyddi gwag oddi wrth asiantaethau recriwtio ar yr amod bod enw'r cleient yn cael ei roi hefyd.

- We are unable to guarantee attendance by students at on-campus recruitment activities.

Yn gyfnewid, byddem ninnau'n gwerthfawrogi:

- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am newidiadau yn eich proses recriwtio, gan gynnwys newidiadau personél.

- Cael gwybod cyn gynted â phosibl os bydd gweithgareddau recriwtio'n cael eu dileu.

Rydym yn gofyn yn rheolaidd i gyflogwyr gloriannu'n gwasanaethau, ac yn rhoi newidiadau priodol ar waith.

Dylai unrhyw gyflogwr sydd am drafod sut i gydweithio'n agos â ni i hybu'r cyfleoedd sydd ganddynt gysylltu yn y lle cyntaf â Katrina Taylor, Rheolwr Cysylltiadau Cyflogwyr a Marchnata, e-bost: **taylork8@caerdydd.ac.uk** ffôn: (029) 2087 5203.

Datganiad Cyfleoedd Cyfartal

Nod y Gwasanaeth Gyrfaoedd yw cynnig gwasanaeth teg a chyfartal i bob un o'i gleientiaid, beth bynnag fo'i r(h)yw, ei darddiad/ei tharddiad ethnig, ei (h)oedran, ei r(h)ywioldeb, ei grefydd/ei chrefydd neu ei (h)anabledd. Gallwn gynnig cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr a allai elwa o gael rhagor o gymorth. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion.

YMWRTHODIAD

Cyflwynir yr wybodaeth a'r cyngor a roir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ddidwyll ac mae pob ymdrech resymol wedi'i gwneud i sicrhau eu bod yn gywir. Ni fydd Prifysgol Caerdydd na'r aelodau unigol o staff yn atebol i unrhyw berson mewn contract, tort, statud nac fel arall am unrhyw golled, gofid neu niwed o unrhyw fath sut bynnag y'i hachosir (ac eithrio am farwolaeth neu niwed personol a achoswyd gan esgeulustod Prifysgol Caerdydd neu'r aelodau unigol o staff). Darperir pob gwybodaeth a chyngor yn unig ar sail yr ymwrthodiad hwn.